Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Sian Howys
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Sian Howys,

**Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020**

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir Ceredigion wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
0872 437 7303
CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydweithredol a seiliedig ar gryfderau o hybu gwelliant.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- arolygu gwasanaethau plant anabl – mis Ionawr 2020
- cyfarfodydd â phenaethiaid gwasanaethau
- gweithgareddau â ffocws yn y gwasanaethau oedolion – mis Tachwedd 2019
- gwaith ymgysylltu ag oedolion hŷn a'u gofalwyr – mis Awst/Medi 2019
- cyfarfod adolygu – gwaith atal a hybu annibyniaeth i oedolion hŷn – mis Hydref 2019
- adolygu gwaith sicrwydd ac asesiadau risg – mis Chwefror 2020
- gwybodaeth a gafwyd
- gwybodaeth am berfformiad

Rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â'r awdurdod lleol yn ystod y gweithgareddau a gynhaliwyd, ac mae ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'r canfyddiadau rydym wedi eu rhannu â chi.

<u>Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014</u>

**Llesiant**

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i drawsnewid ei fodel gweithredu ar gyfer gofal cymdeithasol er mwyn bodloni gofynion Deddf 2014 yn llawn a bod yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o fewn nodau ehangach ei strategaeth gorfforaethol. Mae lefel dda o gymorth corfforaethol a gwleidyddol i'r gwasanaethau cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed nifer o newidiadau o fewn Cyngor Sir Ceredigion ar lefel yr uwch-reolwyr. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol presennol wedi'i benodi dros dro, wrth aros i'r model gwasanaethau newydd gael ei roi ar waith. Ar ôl hynny, y bwriad yw ystyried lle rôl y cyfarwyddwr yn y strwythur newydd.

O ran penodi rheolwyr corfforaethol, mae'r uwch-reolwyr yn cydnabod eu bod wedi cyrraedd pwynt allweddol ar eu taith i drawsnewid. Bydd yr awdurdod lleol yn buddsoddi mewn rhaglen hyfforddi i gefnogi'r holl reolwyr corfforaethol i ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau newydd.

Roedd yr uwch-reolwyr yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf yn electronig yn rheolaidd, ac yn cefnogi llesiant y gweithlu cyfan yn ystod y trawsnewid. Roedd yr ymarferwyr a'r rheolwyr y gwnaethom gyfweld â nhw yn ystod yr arolygiad a'r gweithgareddau â ffocws yn gwerthfawrogi hyn.

Dywedodd y gofalwyr wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a'r cymorth a ddarperir gan Uned Gofalwyr Ceredigion. Dywedodd y sawl sy'n gofalu am oedolion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses asesu, eu bod yn cael cynnig asesiad eu hunain a bod eu hanghenion yn cael eu hystyried fel rhan o asesiad ehangach. Yn ystod yr arolygiad o wasanaethau plant anabl, gwelsom nad oedd asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnig yn gyson na'u cwblhau yn unol â deddfwriaeth. Bydd angen i'r awdurdod lleol fodloni ei hun bod yr holl ymarferwyr yn deall bod gan ofalwyr yng Nghymru

yr un hawliau â'r bobl y maent yn gofalu amdanynt, a bod yr holl asesiadau gofalwyr yn cael eu cwblhau yn unol â chanllawiau statudol.

Gwnaeth y rheolwyr gydnabod bod angen datblygu'r fframwaith sicrhau ansawdd ymhellach, a byddant yn mynd i'r afael â hynny fel rhan o broses barhaus yr awdurdod lleol o drawsnewid gofal cymdeithasol.

**Pobl**

Roedd lleisiau a dymuniadau oedolion sy'n wynebu risg wedi eu hymgorffori yn y ddogfennaeth ddiogelu a welsom. Roedd tystiolaeth bod pobl yn cael eu cefnogi gan eiriolwyr anffurfiol i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Gwelsom dystiolaeth bod ystyriaethau a phenderfyniadau sy'n ymwneud â diogelu yn ystyried gofynion cyfreithiol Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Nid oedd llais na barn plant anabl a rhieni/gofalwyr, na'r canlyniadau personol roeddent am eu cyflawni, yn cael eu cofnodi'n gyson yn yr asesiadau na'r cynlluniau gofal a chymorth. Mae angen dull gweithredu mwy cydweithredol, a thystiolaeth bod yr holl ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i sicrhau bod dealltwriaeth y cytunir arni o'r ffordd y bydd anghenion a chanlyniadau personol yn cael eu cyflawni. Gwelsom fod angen cryfhau llais y plant a'r rhieni/gofalwyr wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau.

Roedd pobl yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Roedd tystiolaeth bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ddarparu, ac roedd y rheolwyr yn hyderus bod digon o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn y gwasanaethau plant anabl i roi'r Cynnig Rhagweithiol ar waith. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn mynd ati i gefnogi staff i gwblhau hyfforddiant iaith Gymraeg, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i ymarferwyr wella eu hyder wrth siarad Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod yr awdurdod lleol wedi croesawu a hybu taliadau uniongyrchol, sy'n annog teuluoedd i arfer mwy o ddewis a rheolaeth. Er bod pobl yn cael taliadau uniongyrchol, mae'r manteision yn gyfyngedig o ganlyniad i'r anawsterau sy'n codi wrth geisio recriwtio cynorthwywyr personol a'u cadw. Mae hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar deuluoedd, ac mae'n faes y mae angen i'r awdurdod lleol ei fonitro.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw’r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

**Atal**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio i ail-lunio ac ailgynllunio ei wasanaethau gweithredol er mwyn canolbwyntio’n fwy ar ei fentrau ymyrryd yn gynnar ac atal, yn unol â gofyniad Deddf 2014.

Caiff plant ac oedolion ifanc anabl eu cefnogi a'u hannog i ddysgu a datblygu er mwyn cyflawni eu potensial llawn a chymryd rhan mewn cymdeithas. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod nad yw'n manteisio i'r eithaf ar y defnydd o dechnoleg gynorthwyol ar hyn o bryd, ac y dylai ystyried ei hybu yn ehangach.

Mae cael gafael ar ddigon o adnoddau yn her i'r awdurdod lleol o hyd. Yn ystod yr arolygiad diweddar, gwelsom oedi cyn darparu gofal a chymorth, a dibyniaeth ar daliadau uniongyrchol. Mae darparu gofal cartref i oedolion yn heriol o hyd. Bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei drefn gomisiynu yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau o ansawdd da i blant ac oedolion.

Gwnaethom edrych ar y ffordd roedd yr awdurdod lleol yn rhoi canllawiau trothwy diogelu oedolion Partneriaeth Gorllewin Cymru ar waith. Pan fo pryderon yn gysylltiedig ag ansawdd a safonau'r gwasanaeth a ddarperir, gwelsom fod y ffocws ar weithio gyda darparwyr i fynd i'r afael â phryderon yn briodol, a gwella'r broses o ddarparu a chyflawni gwasanaethau.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r adroddiad ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal, ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi bod mewn gofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amlder adolygiadau diwedd lleoliad.

Dywedodd yr awdurdod lleol fod gweithdrefnau ar waith ganddo i ymateb os bydd lleoliad yn chwalu. Trafodir sut y gellid datrys y problemau yn wahanol mewn cyfarfodydd tarfu, a chaiff y canlyniadau eu trosi yn gynllun gweithredu a fydd yn dylanwadu ar arferion yn y dyfodol. Mae'r grŵp sicrwydd amlasiantaeth i blant sydd wedi bod mewn gofal yn monitro gwybodaeth am leoliadau sy'n chwalu bob chwarter.

**Partneriaethau**

Yn ystod y gweithgareddau â ffocws ar oedolion, gwelsom dystiolaeth o ymarferwyr yn meithrin cydberthynas waith broffesiynol â phobl ar sail cydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Gwelsom drefniadau gweithio ar y cyd effeithiol rhwng y tîm diogelu a thimau eraill yn y gwasanaethau oedolion. Soniodd cynrychiolwyr o'r heddlu a'r bwrdd iechyd wrthym am eu cydberthnasau gwaith da â'r awdurdod lleol.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth o ddull gweithredu amlasiantaeth o reoli'r risgiau sydd ynghlwm wrth ymddygiad person ifanc agored i niwed. Roedd llawer o bobl yn mynd i'r cyfarfodydd, a oedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn adolygu'r sefyllfa yn gyson, gan gymryd camau rhagweithiol i liniaru unrhyw niwed neu'r posibilrwydd o niwed.

Mae ‘Camu Mlaen’ yn enghraifft o wasanaethau plant a gwasanaethau dysgu'r awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Datblygodd y bartneriaeth fodel newydd sy'n canolbwyntio ar unigolion a fydd yn galluogi pobl ifanc ag anghenion dwys a chymhleth i gael eu haddysgu a'u paratoi ar gyfer bywyd fel oedolion. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bobl ifanc aros yn nes at eu cartrefi a chynnal eu cysylltiadau â'u cymunedau.

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i gymryd rhan weithredol yn y broses o weithio mewn partneriaeth yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae hyn yn amlwg yn ei ddull diogelu mewn gwasanaethau i blant ac oedolion. Nododd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru fod angen rhoi mwy o bwyslais ar waith gyda phlant. Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i'r datblygiad hwn, a fydd yn cryfhau ac yn cynyddu ei allu i ddiwallu anghenion plant ag anghenion cymhleth.

**Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021**

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymgyrch gwirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc. Archwilio Cymru, AGIC, Estyn